

## CYNGOR SIR FYNWY

**Pwyllgor Cynllunio**  
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**  
**Dydd Mawrth, 4ydd Chwefror, 2025, 2.00 pm**

**CYNGHORWYR** Cynghorydd Sirol Phil Murphy (Cadeirydd)  
**YN**  
**BRESENNOL:** Cynghorydd Sirol Dale Rooke (Is-Gadeirydd)

Cynghorydd Sirol: Jill Bond, Fay Bromfield, Emma Bryn, Jan Butler,  
John Crook, Tony Easson, Steven Garratt, Meirion Howells,  
Su McConnel, Jayne McKenna, Maureen Powell, Sue Riley,  
Ann Webb, Laura Wright

Cynghorydd Sirol Tudor Thomas

### **SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

Amy Longford	Rheolwr Treftadaeth
Philip Thomas	Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Andrew Jones	Development Management Area Team Manager
Matt Jeffes	Senior Engineer (Flood Risk Management)
Joanne Chase	Cyfreithiwr a Phennaeth Cyfraith Fasnachol
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democraidd

### **YMDDIHEURIADAU:**

Dim.

#### **1. Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd y Cynghorydd Sir Laura Wright fuddiant personol sy'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas â chais DM/2022/01525, oherwydd bod ganddi berthynas eisoes ag un o'r prif wrthwynebwyr, fel yr amlinellwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 14eg Ionawr 2025. Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cynllunio, mae'r eitem hon wedi'i hystyried gan Bwyllgor Amgylchedd y Fenni, ond ni chymerodd y Cynghorydd Sir Wright ran yn y drafodaeth yn y Fenni er ei bod ar y Pwyllgor ac nid oedd wedi pleidleisio ar yr eitem. Gadawodd y Cynghorydd Sir Wright gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio heb gymryd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y cais hwn.

Datganodd y Cynghorydd Sir Fay Bromfield fuddiant personol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas â chais DM/2022/01525 gan fod yr ymgeisydd yn hysbys iddi. Mae hi'n cyfrannu'n rheolaidd iddo yn ei rôl o fewn Clwb Rotari. Er mwyn bod yn dryloyw, nid oedd yn teimlo ei bod yn briodol pleidleisio ar y cais hwn.

#### **2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 14eg Ionawr 2025 a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio  
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA  
Dydd Mawrth, 4ydd Chwefror, 2025, 2.00 pm

### **3. Cais DM/2024/00557 - Datblygiad arfaethedig o 50 o anheddau fforddiadwy, cynigion draenio cynaliadwy, plannu tirwedd, parcio ceir a gwaith cysylltiedig. Tir oddi ar Tudor Road, Wyesham, Trefynwy**

Rhoesom ystyriaeth i adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr yr argymhellwyd ei chymeradwyo gyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106.

<https://www.youtube.com/live/0B1ijl0r5pl?si=FXy9lx2ZzKciZHeP&t=126>

Ymataliodd y Cyngorydd Sir Jill Bond rhag pleidleisio ar y cais hwn gan ei bod wedi ymuno â'r cyfarfod yn hwyr oherwydd anawsterau technegol.

Ymataliodd y Cyngorydd Sir Jayne McKenna rhag pleidleisio ar y cais hwn gan ei bod wedi gadael y cyfarfod am gyfnod byr oherwydd anawsterau technegol yn ystod y drafodaeth cyn ailymuno â'r cyfarfod.

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiodd y Cyngorydd Sir Su McConnel ac eiliwyd gan y Cyngorydd Sir Emma Bryn y dylid caniatáu cais DM/2024/00557 gyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106.

O'u rhoi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau fel a ganlyn:

O blaid	-	14
Yn erbyn	-	0
Ymwrthod rhag pleidleisio	-	0

Pleidleisiwyd o blaid y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2024/00557 yn amodol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106.

### **4. Cais DM/2022/00235 - Stablau ac ysgubor. Tir gerllaw Upper Maerdy Farm, Red Hill i'r B4235, Llanyfyw, Brynbuga.**

Rhoesom ystyriaeth i adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr yr argymhellwyd ei chymeradwyo gyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

<https://www.youtube.com/live/0B1ijl0r5pl?si=RUOuGPoC6LJtqhmh&t=2971>

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiodd y Cyngorydd Sir Maureen Powell ac eiliwyd gan y Cyngorydd Sir Su McConnel y dylid cymeradwyo cais DM/2022/00235 gyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad gyda dau amod ychwanegol, sef:

- Cyflwyno a chymeradwyo cynllun gwella ecolegol cyn dechrau'r datblygiad.

## CYNGOR SIR FYNWY

**Pwyllgor Cynllunio**  
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**  
**Dydd Mawrth, 4ydd Chwefror, 2025, 2.00 pm**

- Cynllun rheoli gwastraff (tail) i'w gyflwyno a'i gytuno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cychwyn.

O'u rhoi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau fel a ganlyn:

O blaid	-	11
Yn erbyn	-	3
Ymwrthod rhag pleidleisio	-	2

Pleidleisiwyd o blaid y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2022/00235 gyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad gyda dau amod ychwanegol, sef:

- Cyflwyno a chymeradwyo cynllun gwella ecolegol cyn dechrau'r datblygiad.
- Cynllun rheoli gwastraff (tail) i'w gyflwyno a'i gytuno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cychwyn

**5. Cais DM/2022/01525 - Adeiladu byngalo arfaethedig gyda pharcio ar dir y tu cefn i 11 Park Close. Y tu cefn i 11 Park Close., Y Fenni, NP7 5SU.**

Rhoesom ystyriaeth i adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a gyflwynwyd i'w gwrthod am y rheswm a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Roedd y cais wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio ar 14 Ionawr 2025 gydag argymhelliad i'w ganiatáu. Fodd bynnag, nid oedd y Pwyllgor Cynllunio yn cytuno â'r argymhelliad hwn ac wedi gohirio ystyried y cais tan gyfarfod Chwefror 2025 o'r Pwyllgor Cynllunio gydag argymhelliad i'w wrthod am y rheswm a ganlyn:

- Mae'r fynedfa 3m o led arfaethedig sy'n gwasanaethu tri eiddo, yn wyriad sylweddol oddi wrth Safonau Cyffredin Cymru a byddai'n arwain at ddirywiad mewn safonau priffyrdd ac yn effeithio'n andwyol ar ddefnyddwyr y briffordd gyhoeddus gyfagos yn groes i Bolisi MV1 y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig.

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ym mis Ionawr 2025, roedd yr ymgeisydd wedi darparu Cynllun Safle wedi'i ddiweddarau (A101 Rev C) i'w adolygu, yn dangos man troi yn dangos sut y gall cerbyd fynd i mewn a gadael mewn gêr blaen.

[https://www.youtube.com/live/0B1ijl0r5pl?si=z4s5mZbZeP-M1\\_ny&t=6658](https://www.youtube.com/live/0B1ijl0r5pl?si=z4s5mZbZeP-M1_ny&t=6658)

Cynhaliwyd pleidlais electronig. Fodd bynnag, oherwydd agosrwydd y bleidlais lle'r oedd y canlyniad o fewn dwy bleidlais neu lai, defnyddiwyd paragraff 27.27.6 o Gyfansoddiad Cyngor Sir Fynwy:

*Pan fydd y canlyniad yn 2 bleidlais neu lai neu pan fydd angen i'r Cadeirydd ystyried bwrw pleidlais derfynol, bydd galw cofrestr yn cael ei chynnal yn yr un arddull â phleidlais wedi'i recordio fel bod y canlyniad y tu hwnt i amheuaeth. Bydd nifer y pleidleisiau ar gyfer pob opsiwn yn cael ei nodi yn y cofnodion.*

## CYNGOR SIR FYNWY

**Pwyllgor Cynllunio**  
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**  
**Dydd Mawrth, 4ydd Chwefror, 2025, 2.00 pm**

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiodd y Cyngorydd Sir Su McConnel ac eiliwyd gan y Cyngorydd Sir Emma Bryn y dylid gwrthod cais DM/2022/01525 am y rheswm a amlinellwyd yn yr adroddiad.

O blaid gwrthod	-	6
Yn erbyn gwrthod	-	7
Ymwrthyod	-	1

Ni phleidleisiwyd o blaid y cynnig.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd gohirio ystyried cais DM/2022/01525 i'w ailgyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio gydag argymhelliad gwreiddiol y swyddog i'w ganiatáu, yn amodol ar y cynllun diwygiedig yn dangos man troi yn dangos sut y gall cerbyd ddod i mewn a gadael mewn gêr blaen.

**6. Cais DM/2024/00422 - Datblygiad arfaethedig ar gyfer anheddau preswyl a thirlunio a seilwaith cysylltiedig. Tir Masnachol ym Mabey Bridge, Ffordd Gorsaf Mabey Bridge Cas-gwent, Sir Fynwy.**

Rhoesom ystyriaeth i adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr yr argymhellwyd ei chymeradwyo gyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106.

<https://www.youtube.com/live/0B1ijl0r5pl?si=ZlpNgpmXbG8bPd3Y&t=8384>

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiodd y Cyngorydd Sir Maureen Powell ac eiliwyd gan y Cyngorydd Sir Sue Riley y dylid cymeradwyo cais DM/2024/00422 gyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106.

O'u rhoi i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau fel a ganlyn:

O blaid	-	16
Yn erbyn	-	0
Ymwrthyod rhag pleidleisio	-	0

Pleidleisiwyd o blaid y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2024/00422 yn amodol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106.